Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: http://orca.cf.ac.uk/114290/

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Loeffler, Marion 2018. Olion Llenyddol Ymwelwyr â Llanofer. Llên Cymru 41 (1) , pp. 53-88. 10.16922/lc.41.3 file

Publishers page: https://doi.org/10.16922/lc.41.3 <https://doi.org/10.16922/lc.41.3>

Please note:
Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See http://orca.cf.ac.uk/policies.html for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.

information services
gwasanaethau gwybodaeth

10.16922/lc.41.3

Olion Llenyddol Ymwelwyr â Llanofer[1]

'Marc a adewir gan droed anifail, dyn, &c., trywydd, brisg, llwybr; marc, stamp, gweddill, mymrym, arlliw, hefyd yn *ffig*.' yw esboniad *Geiriadur Prifysgol Cymru* ar y gair *ôl* a'i luosog *olion*.[2] Olion yw bron popeth sydd arnom ac o'n cwmpas. Ble bynnag yr awn, gadewn olion, rhai yn llythrennol ac eraill yn drosiadol. Cyfuniad yw pob ôl o'r sawl sydd yn ei adael a'i ddylanwad ar y sawl sydd yn ei dderbyn. O ganlyniad maent yn gymaint o ddangosydd o gyflwr y derbynnydd ag y maent o gyneddfau'r rhai sydd wedi eu gadael, boed y rheini'n garfan o bobl neu'n ymwelwyr unigol, ynteu'n ddiwylliannau mewn cysylltiad â'i gilydd. Y mae olion llenyddol ymwelwyr â Llanofer yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn siarad â ni yn yr un modd. Adlewyrchant berthynas aelodau cylch Cymreigyddion y Fenni â threfedigaethau Ymerodraeth Brydeinig, diwylliannau eraill Ewrop ac aelodau'r 'teulu' Indo-Ewropeaidd. Arddangosant wahaniaethau a rhwygiadau statws a dosbarth y Gymru a aflonyddai ar wynfyd Llanofer o bryd i'w gilydd. Ceir argraff ynddynt o'r ymwelwyr, eu diddordebau, eu galluoedd, eu teimladau preifat a'u hagweddau tuag at Gymru a'r Cymry. Yn olaf, wrth i fywydau ymwelwyr orgyffwrdd, amlyga'r olion ambell gysylltiad cudd rhwng y cymdeithasol a'r gwleidyddol, y dysgedig a'r llenyddol.

Fel sydd yn hysbys yn sgil ymchwil ysgolheigion megis Maxwell Fraser, Mair Elvet Thomas a David Thorne, denwyd nifer o ymwelwyr rhyngwladol i Lys Llanofer drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhwng diwedd yr 1830au a'r 1850au, daethant ar wahoddiad Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer, a thrwy gysylltiadau *Freiherr* Johann Christian von Bunsen, ei brawd yng nghyfraith.[3] Erbyn diwedd y ganrif daethant i ymweld ag unig ferch teulu Llanofer, Augusta Herbert (1824–1912, Gwenynen Gwent yr Ail), a barhaodd y traddodiad o noddi diwylliant brodorol y Cymry a chroesawu ymwelwyr i'w chartref.[4] Nid oes yma le i sôn am yr ymwelydd enwocaf, o bosibl, sef Vicomte Hersart de la Villemarqué, er i olion llenyddol ei bresenoldeb ef amlygu dyheadau Cymry a Llydawyr y cyfnod i ganfod cefndryd dros y môr.[5] Yn yr un modd, ni ellir ond crybwyll cynhyrchion ymwelwyr pan-Geltaidd diwedd

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 53 19-May-18 10:40:47 AM

y ganrif, megis *Gwerziou gant Abherve ha Taldir (Brezoneg ha keumraeg kenver-ouz-kenver Er Coffadwriaeth am Eu Taith yn Nghymru)* a gyhoeddwyd yn 1899.[6] Canolbwyntia'r erthygl hon ar y sawl a ymwelodd â Llanofer pan fu Cymreigyddion y Fenni yn eu hanterth. Edrychwn ar olion tri gŵr yn arbennig, i amlygu perthnasau a chysylltiadau, camddealltwriaethau ac ystrydebau, a'r cyplysiad – a anghofir yn fynych – rhwng y gwleidyddol a'r diwylliannol.

Rhamantiaeth a moderniaeth: Tagore a Ţhakur

Trown yn gyntaf at nai ac ewythr a ymwelodd â'r Fenni yn 1842 a 1845, sef Chundermohun Chatterjee a Dwarkanath Tagore. Dathlai'r Cymry y naill fel y llall megis 'Indian Prince', cynrychiolydd dyrchafedig, tebyg i dywysogion Cymru er yn hanu o drefedigaeth ddwyreiniol ecsotig, ac ar ymweliad i fyd modern 'y Gorllewin'. Disgrifiwyd gwisg Chatterjee, er enghraifft, yn nhermau'r uniaethiad hwn, fel 'turban (in which was placed a silver leek) with a tunic of dark cloth embroidered with silver, over which a shawl was crossed after the Hindoo fashion', a chyfansoddwyd 'englyn' er anrhydedd iddo a fynegodd amwysedd perthynas Cymru â Phrydain a'r ymerodraeth, lle yr oedd tywysogion pob oes yn ymdoddi:

> A foreign Prince now occupies the Chair,
> A Cambrian Prince would erst not scorn to share;
> O let us hope the time is near at hand,
> This Chair may hold a Prince of our own land.[7]

Soniwyd bod Chatterjee yn siarad 'good English, but slightly touched with a foreign accent'.[8] Ni chlywodd awdur yr adroddiad y Saesneg Cymreigaidd a lefarwyd gan y Cymry a fedrai'r iaith fain yn 'estron', gan fod Cymru yn rhan ganolog o'r frenhiniaeth yn hytrach nag yn un o drefedigaethau pellenig ei hymerodraeth. Dengys araith yr ewythr dair blynedd yn ddiweddarach ei fod yntau yn ystyried Saesneg yn iaith 'estron' i'r Cymry hwythau, ac felly yn eu gosod yn yr un sefyllfa drefedigaethol â'i wlad ei hun:

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 54 19-May-18 10:40:48 AM

> If I could address my feeling to you in my own language – in the language in which my young friend addressed me – I might then do some justice to my own feelings; but you will say that my language is certainly foreign to you, and perhaps some of you will now say that the English language is as foreign to you as my own language; but as you have mixed amongst the English very much, perhaps you will understand me if I thus venture to address you.[9]

David Williams o'r Cwm Du oedd yr 'young friend' a oedd wedi croesawu Tagore 'in the Hindostanee language'. Deallwn ragor am berthynas Cymru ag India o esboniad Williams ei fod wedi treulio 'a considerable portion of his life amongst the Himalaya mountains, and was on the field throughout that hard-fought day which added the territory of Scinde to the British crown'.[10] Goresgynnwyd ardal Sindh, sydd heddiw yn rhan o Bacistân, gan y Cadfridog Charles James Napier yn 1843, a'i hychwanegu at diriogaeth yr Ymerodraeth Brydeinig. Nid oes amheuaeth nad testun balchder i'r Cymry presennol yn y cyfarfod oedd y ffaith bod cydwladwyr yn cyfranogi yn y proses o feddiannu a gweinyddu trefedigaethau newydd eu mamwlad. Ceir olion edmygus i wŷr pwerus, megis Syr Thomas Picton, llywodraethwr Jamaica ac arwr Waterloo, y mae cof-golofn iddo yng Nghaerfyrddin hyd heddiw,[11] a rhai cyfoethog megis Syr William Paxton, 'Master of the Mint' i'r East India Company, a ddefnyddiodd elw ei yrfa yn Calcota i brynu stad ger Llanarthne, adeiladu tŵr yno i'r Llyngesydd Nelson (sydd bellach yn rhan o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru), a gwario £15,690 o bunnoedd ar ymgyrch i ennill sedd seneddol sir Gaerfyrddin yn 1790.[12] Yn agosach at gylch Llanofer, ym mhob agwedd, yr oedd Syr Thomas Philips o Landegla a wasanaethai'r East India Company fel llawfeddyg cyn ymddeol i Lundain yn 1817. Ef, ar y cyd ag Arglwyddes Llanofer, a sefydlodd Goleg Llanymddyfri yn 1847, yr unig ysgol uwchradd yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac iddi le swyddogol i'r Gymraeg. Gadawodd £12,000 iddi yn ei ewyllys, arian yr oedd wedi ei ennill yn India.[13] Yn Calcota, canolfan weinyddol a masnachol yr East India Company ac felly'r trefedigaethau dwyreiniol, yr enillodd Paxton a Philips eu ffortiwn.

Calcota oedd canolbwynt grym Dwarkanath Tagore yntau, a'i ymrwymiad wrth yr ymerodraeth a ddaeth ag ef i Brydain Fawr yn 1842, ac

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 55 19-May-18 10:40:48 AM

i Lanofer yn 1845. Derbyniodd wahoddiad i Lanofer y ddau dro, ond yn 1842, ni chaniataodd amser ond i gyfarfod â'r Frenhines Victoria, a nododd ei bod wedi ciniawa gyda 'Dwarkanath Tagore Zamindar (the Brahmin)', a oedd yn siarad 'English remarkably well, and is a very intelligent, interesting man'.[14] Yn dilyn ymweliadau â'r Alban ac Iwerddon, ildiodd Tagore i wahoddiad Arglwyddes Llanofer yn 1845. Adroddwyd â balchder am bresenoldeb ymwelwyr o Sardinia, yr Almaen a Denmarc yng gŵyl y Fenni y flwyddyn honno, ond at yr ymwelydd o'r 'Indian continent' y dangoswyd y parch mwyaf:[15]

> At the right of the President, sat the Indian Prince, Dwarkanauth Tagore, dressed in the costume of his country, attended by his secretary; on the left, Count Pollon, Sardinian Minister; and Count Reventlow, Danish Minister, and, around, were observed many of the highest families of the Principality.[16]

Ychydig o sôn a fu am lysgenhadon Sardinia a Denmarc wedi hyn. Efallai y dylid eu hystyried yn addurniadau cymdeithasol a oedd yn arwyddocáu statws y digwyddiad, yr un fath â'r 'highest families of the Principality'. Diddorol nodi bod yr *Illustrated London News* yn ystyried telynau a gwisgoedd Cymreig yr ŵyl yr un mor ecsotig â'r ymwelydd croentywyll, fel y tystia ei ddarluniau o'r eisteddfod.[17] Ond o safbwynt meddylfryd rhamantaidd aelodau cylch Llanofer, Tagore oedd y ffigwr pwysicaf, yn agos ac ecsotig yr un pryd. Cynrychiolai ef y teulu Indo-Ewropeaidd y dychmygent eu bod yn perthyn iddo, a hefyd begwn dwyreiniol eu Hymerodraeth Brydeinig. Ar ben hynny, yr oedd yn bennaeth ar werin ddiddosbarth ddychmygedig y gellid ei chymharu â gwerin Cymru. Mynegwyd teimladau aelodau'r cylch yn anerchiadau 1842 a 1845, y ddau wedi eu llunio gan Thomas Price (Carnhuanawc) ac wedi eu harysgrifio'n gain ar sgroliau o femrwn. Pwysleisiodd neges 1842 debygrwydd hen grefyddau'r ddwy genedl, sef 'the similarity of the Druidic and Brahminic tenets', a'r 'many striking instances of resemblance between the Sanscrit and Cymraeg languages', megis tystiolaeth gref o darddiad cyffredin yr 'Hindoo and Celtic races', gan orffen:

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 56 19-May-18 10:40:48 AM

> Under these impressions and with these views respecting the eastern division of the Indo-European race, they cannot but regard, with feelings of peculiar pleasure, the appearance among them of a representative of that celebrated people, especially when they see in that individual so eminent an instance of the high intellectual cultivation which once characterised his nation.[18]

Un genedl hynafol, un hil ac un famiaith a oedd iddynt i gyd ers talwm, ond bod gogoniant India yn gorwedd yn y dyddiau a fu. Ychydig yn llai brwdfrydig a rhamantus oedd ymateb Tagore o'i westy yn Llundain yn 1842:

> The inevitable brevity of this very hasty communication will not permit of my saying any thing upon the subject of our remote connection through a common language, and similar form of religion; your address will, however, lead me to inquiries upon the topic, which if they cannot be brought to a satisfactory result, will at least prove of a curious and interesting description.[19]

Aethpwyd sawl cam ymhellach ar achlysur ei ymweliad yn 1845, pan gyflwynwyd ysgrôl iddo yn bersonol, ac arni destunau Saesneg a Chymraeg. Adroddwyd ei chynnwys Saesneg yn y *Monmouthshire Merlin*, a rhoddwyd y ddau destun ar gof a chadw i'r genedl gan Jane Williams (Ysgafell), yn esiampl o feddwl dwfn ac eang ei harwr Carnhuanawc:

> Yr oeddym [. . .] wedi clywaid am eich amrywiol rinweddau – eich gwladgarwch a'ch ffyddlondeb – eich caredigrwydd a'ch haeloni – yr elusen[n]au a weiniasoch – yr ysgolion a'r athrofeydd yr ydych gwedi eu hadeiladu a'u cynnysgaeddu a chynhaliaeth – y nawdd yr ydych bob amser gwedi ei estyn tuag at eich cydwladwyr Indiaidd – a'ch lletteugarwch tuag at frodorion Prydain [. . .] Ond heblaw y syniadau hyn, y rhai a gynhaliwn yn gyffredin gyda miloedd o'n cydwladwyr Brytanaidd, y mae eraill, y rhai ar y pryd yma ydynt yn ymddangos o anianawd mwy neilltuol; gan ein bod nyni, frodorion Celtaidd yr ynys hon, eppil ei phrif drigolion, a dosparth o'r gangen fwyaf orllewinol o'r genedl fawr Indiaidd-Ewropeaidd ar [ô]l ymraniad o bedair mil o flynyddoedd,

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 57 19-May-18 10:40:48 AM

> ydym yn awr yn gweled yn ein plith gynnrychiolwr o'r gyfran honno o'r teulu dynol i ba un y dosparthwyd bellderau y dwyrain [. . .] A phan y canfyddom y cynnrychiolwr yma o'r genedl fawr ac enwog hono yn awr yn ein plith, ac hefyd yn ymgyfrannedig yn yr un yspryd gwladgarol yr hwn yr ydym nyni ein hunain yn ei feithrin, dyga attom y sicrhad [. . .] fod gwladgarwch yn anniddymadwy, a'i dân yn llosgi a gwres parhaus.[20]

Cadarnhad o gydaelodaeth o'r ymerodraeth a geir yma eto, yn ogystal â rhamant y teulu Indo-Ewropeaidd, a oedd yn prysur ddatblygu ar sail ymchwil ym maes newydd ieitheg gymharol. Sefydlasid y maes gan yr ieithydd a'r bardd Syr William Jones, gŵr o dras Gymreig a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Calcota, yn gyfreithiwr yng nghyflogaeth yr East India Company.[21] Ar ei ddamcaniaethau ef yr adeiladwyd ymchwil cenhedlaeth James Colwes Prichard a Johann Christian von Bunsen, ond hefyd chwedlau Iolo Morganwg a'i ddilynwyr am darddle'r genedl Gymraeg yn y de-ddwyrain pell.[22]

Tafluniwyd y cymysgedd hwn o syniadau ar Dwarkanath Tagore a thrwy hynny ei drosi'n 'Indian Prince' tra gwahanol i'r hyn ydoedd mewn gwirionedd. Nid tywysog mo Darokanath Ţakhur (1794–1846), er iddo gael ei eni i ddosbarth uchaf ei fro, sef cast y Brahminiaid yn Bengal. Teulu cymharol ddibwys oeddynt, nes iddynt elwa ar fethiant stadau mawr Bengal dan bwysau ariannol a milwrol yr East India Company. Ailddosbarthwyd eu tiroedd rhwng y perchnogion newydd ar raddfa fawr yn ystod yr 1780au ac yn enwedig yn sgil y Setliad Parhaol a gyflwynwyd gan Iarll Charles Cornwallis yn 1793, ac a barhaodd fel system gweinyddu economi trefedigaethol India tan 1947. Un o amcanion y setliad oedd troi dosbarth y *Zamindari*, carfan gymdeithasol a ddefnyddiwyd i gasglu trethi'r tir, yn dirfeddianwyr ar ddull Prydeinig, a thrwy hynny greu haenen gymdeithasol gymhedrol rhwng y goresgynwyr a'r brodorion, dosbarth o frodorion a fyddai'n gweithredu fel dynion busnes a gweinyddwyr Prydeinig yn India.[23] *Zamindari* oedd y teulu Ţakhur, un o tua deg ar hugain o deuluoedd a ddaeth i rym yn dilyn y setliad, a theulu 'whose members were to fill roles of high distinction in the later history of Bengal'.[24] Darokanath Ţakhur a osododd sylfaen y llwyddiant masnachol a alluogai i'w ŵyr Rabindranath

Tagore, er enghraifft, godi i enwogrwydd fel bardd ac athronydd yn India yn ogystal ag Ewrop.[25] Ehangodd stadau'r teulu'n syfrdanol nes iddynt fod yn rhai o dirfeddianwyr mwyaf Bengal, a datblygodd eu gweinyddiaeth nes iddynt ymdebygu i 'commercial-industrial complexes'.[26]

Wedi iddo dderbyn ei addysg yn ysgol Saesneg 'Mr Sherbourne', hyfforddwyd Darokanath Ţakhur gan yr Albanwr Robert Cutlar Fergusson, bargyfreithiwr yn Uchel Lys India yn Calcota, a sefydlwyd gan yr East India Company. Gweithiodd yn ogystal ar sawl bwrdd rheoli masnachoedd, megis y fasnach halen, o dan oruchwyliaeth y Company. Ef a agorodd y pyllau glo cyntaf yn yr ardal, ef a adeiladodd eu rheilffyrdd cyntaf ac ef a sefydlodd y cwmni cyntaf ac iddo gyfalafwyr o India a Phrydain, yr Anglo-Indian Managing Industry. Masnachodd ei gwmnïau mewn cynnyrch mor wahanol â reis, sidan, siwgr ac opiwm, yr olaf bron yn fonopoli. Yn India, fe'i hedmygir fel dyn a ddaeth â gwerthoedd y gorllewin i'r wlad, er ei fod, yn ôl pob sôn, yn 'mercilessly efficient and businesslike, but not generous'.[27] Pencadlys ei ymerodraeth ef oedd Calcota, dinas â phoblogaeth o 230,000, yn gymysgedd, yn ôl un o ystadegwyr yr oes, o 'nearly 16 nations'.[28] Y mae'n wir iddo sefydlu'r gymdeithas a fyddai'n sail i'r Indian National Congress yn yr ugeinfed ganrif, ond undeb ydoedd a ffurfiwyd er lles perchnogion tiroedd India ac er mwyn amddiffyn buddiannau masnachol Prydeinwyr ac Indiaid yn y dalaith.[29] Nid 'Indian Prince' dwyreiniol mo hwn, ond arloeswr busnes craff â diddordeb yn y modern, fel y dengys ei lwncdestun yn noswyl Eisteddfod y Fenni ar 16 Hydref 1845:

> Gentlemen, I do truly feel that I am amongst my brethren this day – (much cheering) – and it gives me great satisfaction to know that the art and science of Europe have been brought me so much nearer your shores than I used to be. The first time I visited this country, the voyage occupied six months; the last time I have only been 25 days coming; so that the distance between my home and yours is little more than it is to Rome or other European countries, or a journey from one residence to a winter's quarters in my land. As to remember Wales and this day, Gentlemen, I indeed cannot forget it. (Cheers) Since I have come to England I have visited Scotland and Ireland, and I do assure you that I look on myself as one of yourselves.[30]

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 59 19-May-18 10:40:48 AM

Er i Ţakhur gadarnhau hefyd mai'r un gwaed a redai yn ei wythiennau ef â rhai'r Cymry, yr oedd ei fryd ar gysylltiadau modern ei wlad â Chymru fel aelodau o deulu ymerodraeth y dyfodol, yn hytrach nag un yr Indo-Ewropeaid gynt. Preswyliai yn ninas fodern ac amlethnig Calcota, wedi'r cyfan, gan deithio i'w stadau gwledig (tebyg i Lanofer) i ymlacio. Yn unol â'r arfer, cododd ei wydr i Arglwyddes Llanofer, y 'dear lover of her country' a lwyddodd i'w ddenu i'r rhan hon o 'England'.[31]

Rhamant y werin: gwleidyddiaeth ac ysgolheictod Friedrich Karl Meyer

Yn hwyrach yng ngwledd 16 Hydref 1845, cododd Syr Benjamin Hall i gynnig iechyd da i Friedrich Karl Meyer, enillydd un o brif wobrau Cymreigyddion y Fenni, ymwelydd dysgedig (rhagor na dyrchafedig) â Llanofer. Dengys ymateb Meyer, a oedd yntau'n bresennol, i'r llwncdestun ei edmygedd o wladgarwch y bobl gyffredin yn hytrach na'r boneddigion:

> Gentlemen, if I have ever been successful in any new discoveries in my researches in Welsh Literature, I am to a considerable extent indebted to the patriotism of the peasantry of Wales for their praiseworthy perserverance, in continuing to preserve their language amidst so many adverse circumstances. (Cheers.) I thank you for the flattering way in which you have received the toast, and I do not know whether I may be allowed to propose one, but if I were, it should be 'The Peasantry of Wales'. (Loud cheers.)[32]

Dengys olion cyntaf Meyer yn Llanofer ei fod yn cynrychioli'r ysgol Herderaidd ramantaidd a briodolai wir nodweddion a dysg pob cenedl i'r werin. Byddai'r gred hon yn sail i'w gyfraniadau at ysgolheictod, i'w gamddealltwriaethau a'i waith cyfieithu, ond byddai'n ei datgan ei hun yn ogystal mewn barddoniaeth a glodforai fuddugoliaethau Prwsia yn erbyn Ffrainc ac uno'r Almaen dan ddwrn haearnaidd y Canghellor Bismarck yn 1871.[33] Ni wyddom lawer am fywyd Dr Friedrich Karl Meyer y tu hwnt i'r sôn amdano yng nghofiannau a llythyrau'r teulu von Bunsen, yng

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 60 19-May-18 10:40:48 AM

ngohebiaethau mawrion dysg Cymraeg y cyfnod, yn archif a llyfrgell Windsor, ac o'i gyhoeddiadau.[34] Ymddengys iddo gael ei eni mewn tref fechan o'r enw Rinteln.[35] Astudiodd yn München a chlywn amdano fel tiwtor i feibion hynaf Christian a Francis von Bunsen yn Rhufain yn yr 1820au cynnar.[36] Oddi ar y cyfnod hwn, ceir cyfeiriadau cyson ato ef, ei waith, ei ymweliadau a'i gyfeillgarwch â'r teulu Bunsen ym Mhrydain a'r Almaen yn archifau'r teulu Bunsen, hyd at farwolaeth Francis yn 1876. Wedi cyfnod ym Mhrydain o 1843 tan tua 1851, dychwelodd Meyer i'r Almaen, lle y'i dyrchafwyd i fod yn *Legationsrat* yn 1864 ac yntau erbyn hynny yn byw ym Merlin. Rhestrir ef ymhlith staff Augusta Brenhines Prwsia yn 1865, ac yna yn Ysgrifennydd Llenyddol i Frenin Prwsia ac Ymerawdwr yr Almaen o 1871, Wilhelm I.[37] Bu farw ym Merlin ar 9 Ionawr 1885.[38] Ei gyfeiriad olaf oedd 'Hinterm Giesshaus 1, Berlin', un o adeiladau llys brenhinol Prwsia a oroesodd yr Ail Ryfel Byd, ond yr ysbeiliwyd ei gynnwys gan fyddin Rwsia yn ei sgil.

O Brwsia y cipiodd Meyer brif wobr 1842 gyda thraethawd ar le'r Gymraeg ymhlith yr ieithoedd Celtaidd, a lle'r rheini ymhlith yr ieithoedd Indo-Ewropeeg.[39] Derbyniwyd y wobr ar ei ran gan ei 'friend and countryman, Lieutenant Ernest Bunsen, who would hand it to the Professor on his return to Prussia', sef ail fab Frances a Christian von Bunsen, a nai Arglwyddes Llanofer.[40] Erbyn hydref 1843, yr oedd Meyer yng Nghymru, yn cerdded o Lanofer i gartref John Jones (Tegid) yn Nanhyfer, ac yn amlwg yn medru ar rywfaint o Gymraeg eisoes. Sonia am ei 'broken Welsh' mewn llythyr at William Rees (Llanymddyfri), gan addo ei fod am ei hastudio 'very hard, and hope I may be able to converse with you in Welsh as soon as I shall have the pleasure of seeing you again'.[41] Arhosodd yng Nghymru tan 1845, gan aros yn bennaf yng nghartrefi Tegid, Carnhuanawc, W. J. Rees (Casgob) a Walter Davies (Gwallter Mechain), ysgolheigion mwyaf y genedl. Oddi yno, ymwelodd â Daniel Silvan Evans, Esgob Tyddewi Connop Thirlwall, Arglwyddes Llanofer ac aelodau'r teulu von Bunsen yn Lloegr.[42] Gŵr ifanc tenau ydoedd, yn ôl Casgob, yn dilyn deiet syml gan yfed dŵr yn unig, a chan fynnu cerdded i bobman, fel y werin yr edmygai.[43] Y mae'n amlwg iddo gadw at ei air i ddysgu Cymraeg.[44] Yn 1843, awgrymodd Tegid i David Owen (Brutus) gynnwys nodyn amdano yn *Yr Haul* er mwyn rhoi 'whack to our Dic Sion Dafydd'.[45] Cyflwynwyd

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 61 19-May-18 10:40:48 AM

Meyer fel patrymlun i'r Cymry i'w hannog i astudio 'with equal zeal and resolution [. . .] the elements, principles, and excellencies of their native language'.[46] Yn wahanol i Ţakhur, a wasanaethai megis dolen gyswllt ddyrchafedig ag aelodau'r teulu Indo-Ewropeeg a'r ymerodraeth, gwelwyd yr ymwelydd ifanc ysgolheigaidd a oedd yn ymchwilio'r ieithoedd hyn megis offeryn i newid agwedd bonedd ac ieuenctid Cymru tuag at y Gymraeg.

Ystyriai Meyer yntau y werin Gymraeg ac yn enwedig ei athro pennaf, Gwallter Mechain, fel cynrychiolwyr traddodiadau barddonol Indo-Ewropeeg, fel y dengys y coflith a gyfansoddodd iddo, a hefyd y gerdd Gymraeg gyntaf (am wn i) gan Almaenwr. Ymdrech (weddol od) Meyer ar yr hir-a-thoddaid oedd hon, yn dyst i'w gynefindra â geirfa a thraddodiadau'r beirdd canoloesol:

> Y gwanwyn, teg ei wan o Sermania,
> Yn genad ym i'r Hen Vardd ehed gwna
> O ddiffaith moel, bro ddihoff clawdd Offa
> I'r winllan awen, i'r pen heb eira
> I winnau hav-llin, fflur anniva – gwallt –
> Gwallter Mechain, dor, dwg iechyd da.
> Dr. Carl Meyer a'i cãnt.[47]

Y mae cyflwyno cerdd i wallt rhywun yn taro braidd yn rhyfedd heddiw, ond yr oedd beirdd canoloesol Cymraeg yn defnyddio lliw gwallt i ddynodi ieuenctid a henaint.[48] Hwyrach i Meyer ddysgu am hyn gan ei athro annwyl, a'i chwyldroi er mwyn mynegi tragwyddoldeb hynafiaeth y traddodiad Cymraeg, fel y dengys y goflith a gyfrannodd i'r *Times* ac a gyfeiriai at Gwallter:

> One of those mythological bards of former times – like Homer, Ossian, or Llywarch Hen, with whom the winter of old age only proved a fresh nourishment to the divine spring of youthful poetry in their mind; and, as if Nature had intended to reveal that intellectual youth of her favourite bard by a visible emblem, he still preserved, when I saw him, and continued to preserve until his death, the full fresh colour of his

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 62 19-May-18 10:40:48 AM

> light-brown hair, which formed indeed a singular contrast with the rest of his appearance, with his furrowed brow and the inclined carriage of his tall and powerful frame. I have just now before me a lock of his hair which was cut a short time before he died.[49]

Nid Meyer oedd yr unig ysgolhaig i gysylltu gwallt Gwallter Mechain â henaint ychwaith, gan dderbyn cudyn ohono. Gwrthodasai Thomas Stephens o Ferthyr Tudful gŵyn Gwallter am y cyfaill 'henaint' ym mlwyddyn ei farw, am fod ei wallt 'as silky in texture as the wearer is kind hearted [. . .] not white but brown'.[50] Yn llythyr olaf Gwallter at Thomas yr oedd cudyn (sydd bellach wedi ei golli) a dau nodyn:

> Enclosed in this letter was a lock of hair, with this inscription: –
> 'Gwallter Mechain's Hair
> cut off Nov. 1. 1849
> By J. D.'
> (Miss Davies)
> The Hair ~~was~~ is a nice brown with only a single grey hair.[51]

Anfonwyd cerdd a choflith Meyer o 'fro ddihoff clawdd Offa' y tu hwnt i ffiniau Cymru wen, gan i Meyer dderbyn swydd fel ysgrifennydd Almaeneg a llyfrgellydd i'r Tywysog Cydweddog Albert ar ddechrau 1847, a symud i'r llys brenhinol.[52] Dechreuodd aildrefnu'r llyfrgell frenhinol yno, gan neilltuo rhan o'r casgliad 'entirely to Irish and Welsh literature', yn ôl tystiolaeth Arglwyddes Llanofer.[53] Cwta hanner blwyddyn wedi iddo gyrraedd, derbyniodd wahoddiad i draethu o flaen ail gyfarfod ar bymtheg y British Association for the Advancement of Science a gynhaliwyd yn Rhydychen ar 27 Mehefin 1847. Defnyddiodd von Bunsen ei statws cymdeithasol ac ysgolheigaidd i greu llwyfan i ddau gyfaill Almaeneg ifanc, Meyer a Friedrich Maximilian Müller (un o gyfeillion Dwarkanath Ţhakur),[54] y tri yn datblygu gwahanol agweddau astudiaethau cymharol.[55] Yn y gynhadledd, hawliodd Bunsen safle anrhydeddus i'r ieithoedd Celtaidd yn y teulu Indo-Ewropeeg, megis ei 'first great family' a'r 'most ancient formation of the whole stock'.[56] Dadleuodd Meyer yn ei ddarlith yntau ar 'The importance of the study of the Celtic language as exhibited by the

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 63 19-May-18 10:40:48 AM

modern Celtic dialects still in existence', fod patrymau odli a'r syniad o ramant alegorïaidd llenyddiaethau Ewrop yn hanu o'r llenyddiaethau Celtaidd cynnar, ac iddynt felly gyfrannu yn sylweddol ymhell cyn yr Oesoedd Canol.[57] Gan gymysgu'r gwyddonol a'r rhamantaidd, tynnodd ar waith James Cowles Prichard ac ymchwilwyr modern eraill, ond hefyd ar y *Myfyrian Archaiology* a chynnyrch Iolo Morganwg ynddo. Canolbwynt y testun oedd ei gyfieithiad i ryddiaith Saesneg a barddoniaeth Almaeneg o'r gerdd 'Pryd' a gyflwynwyd, yn dilyn syniadau Müller am grefydd yr Indo-Ewropeaid, megis 'one of the most ancient monuments of Welsh literature, a sacrificial hymn to the god Pryd in his character as the god of the sun'.[58] Gwir arwyddocâd yr ôl llenyddol hwn, serch hynny, oedd cysylltu'r gorffennol hwn â'r presennol, gan symud o ramant i bolisïau iaith modern. Terfynodd ei ddarlith drwy alw'n daer ar eraill i astudio'r Gymraeg oherwydd yr 'access it opens to the study of modern Celtic literature, a literature as interesting in an artistical as an historical point of view', a pheidio â'i thrin fel heneb, gan ddymuno:

> that the two dialects of this highly important and beautiful language, still extant in the island of *Pryd* [. . .] may be maintained both by their own vital energy and by the enlightened care of the government, as constituting one of the most precious, as well as most ancient gems in the Imperial Crown.[59]

Lai nag wythnos cyn cyflwyno i lywodraeth Prydain adroddiad ar gyflwr addysg yng Nghymru a chyhuddai'r Cymry o fod yn anfoesol, yn ddiog ac yn tueddu tuag at derfysg oherwydd eu bod yn siarad Cymraeg, bachodd Meyer ar y cyfle i alw ar i'r llywodraeth ddilyn polisi iaith ymoleuedig a gwarchod y Gymraeg. Diddorol sylwi bod y cysylltiadau ymerodrol rhwng Cymru ac India yn fyw, hyd yn oed yn ei feddwl ef. India, fel arfer oedd 'the jewel in the Imperial Crown'.[60] Ar yr ieithoedd dwyreiniol hyn y traddododd Müller, a fyddai, gyda chymorth yr East India Company, yn cyhoeddi dros 70 o gyfrolau ar ieithoedd a chrefyddau'r rhan hon o'r ymerodraeth.[61] Yn wahanol i Müller, ni pharhaodd Meyer ym Mhrydain. Er i'r frenhines nodi ei hedmygedd ohono fel bardd Almaeneg, 'knowing I don't know how many languages, including numbers of ancient ones

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 64 19-May-18 10:40:48 AM

such as Welsh & Irish',[62] bu'n rhaid iddo adael yn 1850 oherwydd ei ymddygiad.[63] Hwyrach mai Arglwyddes Llanofer oedd yn iawn, wrth iddi awgrymu ei fod yn fwy addas ar gyfer 'Welsh retreat rather than a Court, where his talents were wasted'.[64] Ceir olion ei ymweliadau â Chymru hyd at yr 1870au, serch hynny.

Yr ôl mwyaf syfrdanol a adawodd Meyer yw'r trawsysgrifiadau o Lyfr Aneirin, un o lawysgrifau canoloesol pwysicaf y Gymraeg, a wnaethpwyd yn 1843 ac 1844, ac a fagodd ei awydd i weld golygiad a chyfieithiad ysgolheigaidd o'r testun ynddi. Cynigiodd wobr felly yn eisteddfodau'r Fenni yn 1848 ac 1853.[65] Derbyniwyd dau draethawd yn 1853, gan Thomas Stephens (Casnodyn) a John Williams (ab Ithel). Y mae ôl dylanwad Meyer yn glir yng nghyfrolau printiedig y ddau, ac mae ab Ithel yn benodol yn nodi:

> The basis of the present translation is a MS. on vellum apparently of about the year 1200 [. . .] It came latterly into the possession of the late Rev. T. Price [. . .] The author of the Celtic Researches took a transcript of it, which he communicated to the Rev. W. J. Rees of Casgob [. . .] Mr. Rees's copy was afterwards collated by Dr. Meyer with Mr. Davies's transcript, and the only inaccuracy which had crept in was by him carefully corrected. Dr. Meyer again transcribed Mr. Rees's copy for the use of the present work [. . .] To these two gentlemen the translator is under deep obligations.[66]

Er gwaetha'r diolchiadau, ataliwyd y wobr gan Meyer. Cyhoeddwyd ei ddyfarniad manwl a'i dair prif feirniadaeth yn nhrafodion yr ŵyl. Pwysleisiodd, yn anad dim, fod y cystadleuwyr wedi methu â gosod:

> Welsh Philology [. . .] upon a new basis, more sound and safe than the one it chiefly received towards the beginning of this century by the fantastical labours of some excellent Cambrian patriots [. . .] being fettered, perhaps, by gratitude and respect for the memory of men such as Dr Pughe, Iolo Morganwg, and Sharon Turner . . . [they] have done little or nothing to remove the darkness and false light under which these authors represented to their contemporaries the meaning and

> import of the Gododdin [. . .] the two competitors have not thought of separating and explaining separately the incongruous parts of the Gododin, but have persevered in expounding that wild assemblage of heterogenous fragments as one connected whole, which they still consider to be as classical a conception as the Iliad or Eneid, including even the nursery rhymes mentioned above.[67]

O gofio ei fod ef ei hun wedi ildio i hud Iolo Morganwg ac wedi dilyn trywydd rhamantaidd yn ei gyhoeddiadau, y mae'r feirniadaeth braidd yn eironig inni heddiw. Ond i gynulleidfa gŵyl 1853, yr oedd yn fwy na siomedig. Testun balchder oedd croesawu estroniaid bonheddig neu fawr eu dysg i Lanofer, i arddangos iddynt 'the genuine enthusiasm of Welshmen when their hearts and feelings were awakened and roused by native eloquence and poetry', fel y pwysleisiwyd yn nghinio'r nos. Ond disgwylid iddynt edmygu Cymru, yn hytrach na beirniadu cyraeddiadau ei meibion disgleiriaf. Ymatebwyd yn gyhoeddus a chwerw i'r feirniadaeth gan ab Ithel ei hun a John Hughes (Carn Ingli), gan wrthod barn Meyer, yn y bôn, am ei fod yn ddieithryn:

> Finally, the perusal of Dr Meyer's commentary conveys the impression that, eminently learned as Dr Meyer is allowed to be in other branches of literature, and grateful as all Welshmen feel to him for directing attention to their valuable ancient literature, that he certainly is not sufficiently acquainted with the old poetry of Wales to be able to form a correct opinion as to the merits or demerits of the 'Gododin' of which he constituted himself the sole judge. It is much to be wished that a learned Celtic scholar, a native of the Principality of Wales, and thoroughly versed in the topography, language, usages, and literature of the Cymry, and especially in the works of the older Bards, had been appointed as judge to decide on a subject of such interest and such historical importance to the Principality.[68]

Er gwrthod y feirniadaeth, agorwyd rhifyn cyntaf y *Cambrian Journal* â thraethawd buddugol Meyer o 1842, wedi ei gyfieithu o'r Ffrangeg gan Ysgafell, ac â beirniadaeth James Cowles Prichard ohono. Yr oedd y ddau enw yn cyfleu statws rhyngwladol y cyhoeddiad newydd, wedi'r cyfan.[69]

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 66 19-May-18 10:40:48 AM

Y mae'n arwyddocaol fod Meyer wedi agor ei draethawd gyda chyfeiriad at y teulu 'Indo-Germanic' mewn modd sydd yn ei anthropomorffeiddio, wrth i'r ieithoedd eu hunain ofyn am gwmni 'every language not yet compared with them [. . .] – Are you not also one of us?'[70] Amlinellodd datblygiad y maes o Prichard a Pictet hyd at Bopp, ond dilyn trywydd von Bunsen a Müller a'u hymdrechion i ganfod egwyddorion cyffredinol yn natblygiad diwylliannau a chrefyddau'r byd â wnâi gan mwyaf. Pwysleisiodd Prichard mai cyfraniad arbennig Meyer i'r maes oedd dangos sut yr oedd yr ieithoedd Celtaidd yn rhannu nodweddion â'r ieithoedd Semitaidd a'r Eiffteg. Er bod y damcaniaethau hyn wedi eu hen brofi'n anghywir, cododd Meyer bwyntiau diddorol yma drwy sôn am newidiadau i ieithoedd a oedd mewn cysylltiad â'i gilydd, maes a adnabyddir heddiw fel *contact linguistics*.

Yr hengerdd, fodd bynnag, oedd ei gariad cyntaf, ac ati y dychwelai droeon hyd ddiwedd ei oes. Parhaodd i ymchwilio a chyfieithu'r cerddi, a'u cyhoeddi yn yr Almaen ac yng Nghymru. Yn 1863, ymddangosodd darlith ganddo ar 'Pobloedd, ieithoedd a llenyddiaethau Celtaidd hyfyw yn eu hanes a'u pwysigrwydd', yn gymysgiad o *Celtomania* rhamantuswleidyddol, ysgolheictod ac olion ei ddawn barddol. Yn dilyn ffasiwn ei gyfnod, troesai ei gariad Herderaidd at y werin yn hiliol braidd, gan ddisgrifio'r Celtiaid 'gogleddol' fel 'wyrion Gomer [. . .] bonheddig, gwallt melyn, llygaid-las, dirfawr megis cewri' ('die Enkel Gomers [. . .] edel, blond, blauäugig, riesengross, titanenhaft').[71] Germano-Geltiaid (*Deutsch-Kelten*) oedd y llwythau gogleddol hynny yn ei farn ef, a'r Almaenwyr yn ddisgynyddion iddynt.[72] Cyn-deidiau'r Cymry oedd Celtiaid y De (*die Süd-Kelten*) tywyllach eu pryd a'u gwallt, ac yn arddangos olion y mudo o'r de yn eu hieithoedd a'u traddodiadau.[73] Ochr yn ochr â'r *Celtomania* cafwyd cyfieithiadau i'r Almaeneg o benillion o'r 'Gododdin', o rai o'r 'Gorchanau' ac o 'Marwnad Geraint Fab Erbin', ac atgynhyrchwyd eu testunau mewn atodiadau. Y mae'r cyfieithiadau a'r testunau yn dyst i ddealltwriaeth lawnach Meyer o Lyfr Aneirin nag oedd gan Gymry cenhedlaeth ab Ithel a Stephens. Er i Meyer sôn am Arthur ac Osian (gan grybwyll atyniad ac annilysrwydd yr ail), canolbwyntiodd ar waith y 'cyn-veirdd', am eu bod yn 'fwy hynafol ac yn burach eu Celtigrwydd' ('mehr alterthümliche und ächter Keltische') na'r lleill.[74] Y mae'r ôl llenyddol hwn hefyd

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 67 19-May-18 10:40:48 AM

yn dyst i'w ddawn fel cyfieithydd a bardd ac i ddylanwad ei wleidyddiaeth a'i ddaliadau gwladgarol ar ei waith. Yng ngwasanaeth Prwsia, gwlad â grym milwrol ac awydd i uno'r rhanbarthau Almaeneg eraill yn un ymerodraeth oddi tani, ail-luniodd yr hengerdd fel arwrgerddi cyhyrog. Adleisiwyd mydr y Gododdin yn Almaeneg er mwyn cyfleu 'mudiant milwrol nodweddiadol' ('eigenthümlich kriegerischer Bewegung') y gerdd:[75]

> Kühn zum Streit · nach Cattraith · zog die Schaar,
> Süßser Meth ihr Labsal und ihr Giftmahl war;
> Dreimalhundertzwanzig zogen hin, fürwahr,
> Laut mit Schall, jetzt alle schweigend immerdar:
> Alle die da wallten hin zum Steinaltar
> Traf der Stoßs des Todes unentrinnbar.
>
> Kühn zum Streit · nach Cattraith · zog die Schaar,
> Wein und Meth im Goldpokal ihr Labsal war;
> Lust und Ehr sie leerten wohl ein ganzes Jahr,
> Drei- dreihundertsechzig zogen aus fürwahr:
> Aller so da rannten in des Ruhms Gefahr
> Dreie nur dem Tod entrannen wunderbar.
>
> Munter lachend nach Gododin zog das Heer,
> Schwert in Händen, funkelnd hell in Waff' und Wehr,
> Kurz und jäh ihr Jahr des Glücks, ihr Schicksal schwer:
> Jung und alt, kühn und mild, wild und hehr,
> Alle so da wallten hin zur Schlacht am Meer,
> Alle fiel'n, erschlagen, ohne Wiederkehr.
>
> Nach Cattraith die Streiter zogen früh am Tag,
> Fort sie rißs des kühnen Herzens rascher Schlag,
> Ein Jahr lang war Klang und Lust und Festgelag,
> Wein und Meth sie mutig tranken Tag auf Tag:
> Aber jäh auf Stolz folgt tiefe Niederlag',
> Leid auf Lust, auf lauten Jubel laute Klag'.[76]

Dilynwyd y cyfieithiadau o'r 'Gododdin' gan drosiad o ran o 'Gwarchan Cynfelyn' a dadansoddiad ohono megis 'marwnad filwrol' ('kriegerische

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 68 19-May-18 10:40:48 AM

Todtenklage'), genre cyffredin i Geltiaid a Germaniaid bore oes, yn ôl Meyer. Fel aelodau cylch Llanofer, a gysylltai Brahminiaeth â Derwyddiaeth yn eu neges at Ţhakur, ystyriai Meyer fod yr Hengerdd yn profi tarddle cyffredin yr Almaenwyr a'r Cymry. Fel darlith 1848, diweddodd lyfr 1863 ag apêl ddiwylliannol-wleidyddol. Galwyd ar i ysgolheigion a gwerin yr Almaen arfaethedig ymchwilio i lenyddiaethau cyfnod arwrol y Celtiaid er mwyn cyflawni addewid milwrol yr hynafiaid hyn.[77] Dychwelodd Meyer at ysgolheictod purach yn ei ôl llenyddol olaf, sef cyfieithiad i Gymraeg modern a thrafodaeth o 'Cerddi Juvencus', a gyhoeddwyd yn *Archaeologia Cambrensis* yn 1872, 'to the friendly care of one of those acquaintances I had the happiness of making some eight and twenty years ago'.[78] Arddelai hiraeth am 1844, blwyddyn ei arhosiad hiraf yng ngwynfyd y Cymry, hyd ddiwedd ei oes.

Rhamant ieithoedd a thor calon Georg Justus Sauerwein

Os siomwyd y Cymry gan Friedrich Karl Meyer yn 1853, plesio a wnaeth dau ymwelydd mwy edmygus i'r ugeinfed (a'r olaf) o eisteddfodau Cymreigyddion y Fenni, gydag olion llenyddol yr ail yn dyst i gydblethiad eu bywydau yn Llanofer. Tywysog go iawn oedd y cyntaf, gwestai mwyaf dyrchafedig gŵyl 1853, y bonheddwr Pwyleg ifanc Władysław Czartoryski (1828–94). Gan ei fod yn dirprwyo ar ran von Bunsen, llysgennad Prwsia, cafodd y fraint arferol o eistedd ar ddeheulaw llywydd yr ŵyl, Syr Benjamin Hall. Yn Eifftolegydd o ran arbenigedd, prynai a chasglai Władysław arteffactau a gludwyd i Ewrop gan archaeolegwyr ymerodraethau Prydain a Ffrainc. Yr oedd yn byw ym Mharis, fel y rhan fwyaf o bendefigion ei wlad a oedd ar ffo yn sgil methiant rhyfeloedd annibyniaeth 1831 ac 1846. Ei dad, y tywysog Adam Jerzy Czartoryski, a arweiniai lywodraeth alltud Gwlad Pwyl oddi yno tra oedd y wlad ym meddiant Prwsia, Rwsia ac Ymerodraeth Habsburg. Sefydlodd ym Mharis hefyd Gymdeithas Hanes a Llenyddiaeth debyg i'r Welsh Manuscripts Society, i gasglu, cyhoeddi a hyrwyddo cyfoeth diwylliannol Gwlad Pwyl, a Władysław yn gadeirydd arni oddi ar 1861. Fel hynafiaethwyr rhamantaidd Cymru'r cyfnod, yr oedd Władysław Czartoryski, felly, yn wrthrych yn ogystal ag yn asiant

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 69 19-May-18 10:40:48 AM

ymdrechion trefedigaethol Ewropeaidd. Ei unig argraff uniongyrchol ar ddiwylliant Cymru yw araith yng nghinio'r eisteddfod a osododd gŵyl y Fenni yng nghyd-destun diwylliannau di-wladwriaeth Ewrop, eu hieithoedd a thynged eu diwylliannau. Dengys ei eiriau i ba raddau y syllai ar Lanofer drwy sbectol ramantaidd ei ddyheadau cenedlaetholgar ei hun:

> Being myself of a country where noble privileges, liberty, and independence, in which you have this day been rejoicing, are trodden under foot, and where no man's inherent birthright is respected, but trampled upon and persecuted, I cannot tell you, and cannot express to you, the feeling with which I witnessed your nationality and cheers, and the happy manner you could glory in the deeds and language of your forefathers. It was peculiarly pleasing to me to witness all classes – the aristocratic, the middle, and the lower – vying with each other in manifesting the most lively interest for the old histories, manners, literature, learning, language, and customs of Wales.[79]

I fonheddwr ifanc o wlad nad oedd yn bodoli, ymddangosai Llanofer fel gwynfyd hapus, a phob haen o gymdeithas yn cydweithio'n gydradd dros fuddiannau'r genedl heb ymyrraeth o du cymdogion pwerus. Prin y byddai wedi clywed am y Llyfrau Gleision a'u heffaith, nac wedi teithio ugain milltir ymhellach i'r gorllewin i ymweld â'r rhan honno o'r hen genedl a drigai yn slymiau Merthyr Tudful. Am ysbaid fer yn unig, arhosodd yn Llanofer, ond gwnaeth argraff ddofn ar ymwelydd ifanc arall ag ŵyl 1853, y cyhoeddwr a'r aml-ieithydd Almaeneg Georg Justus Sauerwein (Girenas, 1831–1904).

Ac yntau'n medru dros 70 o ieithoedd, yn ôl pob sôn, edmygid Sauerwein fel rhyfeddod deallusol gan ei gyfoeswyr. Pery yn ffigwr pwysig yn hanes diwylliannau Sorbiaid Łużica dwyrain yr Almaen, yn Lithwania ac yn Norwy, fel y tystia sawl cynhadledd a chyfrol.[80] Wedi ei fagu yn Gronau, astudiodd hen ieithoedd a chrefyddau yn Göttingen tan 1851. Ymadawodd heb raddio, ei fryd ar swydd gyda'r East India Company, 'blindly attaching myself to the idea of studying India in the service of Great Britain', meddai.[81] Yn dilyn methiant yr ymgais hwn, gweithiodd fel tiwtor preifat i deuloedd bonheddig ym Mhrydain Fawr rhwng 1852 ac 1857, ac i'r

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 70 19-May-18 10:40:48 AM

dywysoges Elisabeth zu Wied (brenhines Rwmania o 1869) tan 1860,[82] cyn troi yn gynghorydd iaith a chyfieithydd Beiblau y British and Foreign Bible Society tan 1896. Drwy ei waith fel tiwtor i deuluoedd yn Llandrillo a Chonwy daeth i adnabod Arglwyddes Llanofer, gan dderbyn gwahoddiad i Eisteddfod y Fenni 1853, mwy na thebyg drwy law Johann Christian von Bunsen a gyfarfuasai yn Llundain yn fuan wedi cyrraedd Prydain.[83] Achosodd Sauerwein gryn gyffro yn y cinio am iddo draddodi araith a cherdd yn Gymraeg ar adeg pan oedd gweithrediadau cyhoeddus Cymreigyddion y Fenni wedi troi at y Saesneg i raddau helaeth.

Y mae'r cyflwyniad Saesneg iddo, a adleisiai sylwadau'r wasg Gymraeg am Friedrich Karl Meyer drwy ei ddisgfrifio fel patrymlun, yn nodweddiadol o gymhleth israddoldeb Cymry deallus y cyfnod:

> The Rev. J. Hughes (Carn Ingli) announced the presence of a young gentleman from Germany, who though he had been in the Principality little more than half a year, had yet acquired a thorough knowledge of the Welsh language. He was acquainted with it not only grammatically but also colloquially. He wished to propose to his health, and he had no doubt that he could respond to the toast in real Cymraeg. He begged to propose the health of 'Mr. Sauerwein', whose talents and example in acquiring the language in the manner he had done might, he hoped, be emulated and followed by many persons on whom Wales had real claims.

Amlygodd ymateb Sauerwein statws a lle canolog von Bunsen yn rhwydweithiau diplomyddol ac ysgolheigaidd Almaenwyr ym Mhrydain Oes Victoria, ond hefyd edmygedd y gŵr ifanc o Arglwyddes Llanofer:

> Mr. Sauerwein, the learned German scholar, immediately arose and spoke in Welsh as follows – Yr wyf yn ddiolchgar iawn i chwi, foneddigion, am y sylw caredig a ddarfu i chwi ei ddangos tuag attaf fi a thuag at fy ng[h]enedl. A diolch yr wyf i'r parchedig foneddig, a eisteddodd i lawr, am grybwyll mewn modd mor garedig am fy adnabyddiaeth bychan â'r iaith Gymraeg, hen iaith wreiddiol yr ynys hon. Y mae wedi rhoi i mi lawer o ddifyrrwch i ddysgu'r iaith hon a chael agor y drws felly at drysorau cyfoethog ei hên lenyddiaeth; difyrrwch ail i ddim ond

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 71 19-May-18 10:40:48 AM

> i'r hyfrydwch o fod yn adnabyddus a'r [*sic*] genedl, yr hon, hyd y dydd yma, sydd wedi cadw i fyny'r hen iaith ardderchog honno. Nid fychan yw nifer y sawl o'm cenedl i ag sydd yn teimlo dyddordeb yn hen iaith, a llenyddiaeth y Cymry; nid bychan y rhai a fuasent yn cyd-deimlo a chyd-lawenhau â chwi ar yr achlysur hyfryd hwn. Nid bychan chwaith eu hawydd am drysorau'r iaith Gymraeg, ac am allu i daenu goleu gwybodaeth dros dywyllwch yr oesoedd gynt. Yn enwedig cyfeiriaf at y dyn mawreddus mewn gwirionedd, y cawr llenyddol hwnnw, – o ddoethineb a diwydrwydd, yr hwn y cawsom brawf newydd heddyw, pan glywsom ei farn am y wobr fawr. Y mae ei absenoldeb, yr wyf yn sicr, wedi siomi yn arw bob un ohonom. Am nad yw efe yn ein plith, a'm bod i yn unig yn bresennol i gynddrychioli fy nghenedl, gadewch i mi eich annerch yn enw fy nghydwladwyr, a dymuno drostynt hwy, a throsof fy hun, bob llwyddiant i ymdrechion y gymdeithas hon, bob gwynfyd i genedl y Cymry, a hoedl hir a dedwyddol i lywydd urddasol yr Eisteddfod yma, a'i arglwyddes uchelfrydig, ac 'Oes y Byd i'r iaith Gymraeg':
>
> > Tra bo gan Gwentwys eu maesydd mor ffrwythlon,
> > Tra bo gan y Cymry galonau mor ffyddlon;
> > Nag anghofied y Cymry eu gwyrddlas genhinen,
> > Na Gwent, anwyl Gwent, ei charedig Wenynen.[84]

Ychwanegwyd troednodyn i bwysleisio: '*The above *englyn* is the learned gentleman's own composition in the Welsh language. Mr. Sauerwein is only 22 years of age.'[85] Er iddo ystyried diwylliannau bach gwerinol yn ffynhonnell ar gyfer adnewyddu Ewrop, y mae'n amlwg o adroddiadau Sauerwein ei fod yn mwynhau cwmni boneddigion rhagor na'r werin. Wedi bod yn 'ganolbwynt cymdeithas mor wâr' ('Mittelpunkt einer so reizenden Gesellschaft') Llanofer, grwgnachai am orfod dychwelyd i ogledd Cymru, lle y trigai 'ymhlith gwerinwyr garw' ('mitten unter ungesitteten Bauern').[86] Byddai statws cymdeithasol yn ei ofidio tan ddiwedd ei oes, fel y gwelir yn y man. Nid oedd wedi rhoi'r gorau i'r syniad o weithio gyda'r East India Company chwaith. Ysgrifennodd at Friedrich Maximilian Müller, a oedd erbyn hynny'n athro yn Rhydychen, gan gynnig cydweithio ac atodi cerddi yn Sanscrit, ond nid erys tystiolaeth am y 'projected Indian career' y tu

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 72 19-May-18 10:40:48 AM

hwnt i ddau lythyr.[87] Fe'i cefnogwyd yn ei ymdrechion i ganfod swyddi fel cyfieithydd neu athro gan Georg von Bunsen (mab arall Christian von Bunsen), gan Arglwyddes Llanofer, ac eraill.[88] Ymwelodd Sauerwein â Llanofer eto ym Medi 1854 a Medi 1857, ond gadawodd Brydain am yr Almaen, ac yna Norwy yn 1857.[89]

Serch hynny, ac fel yn achos Meyer, parhaodd ei gysylltiadau â Chymru yn rhai cyhoeddus ac yn rhai mwy preifat. Lluniodd gerddi Cymraeg ar gyfer cyfrolau amlieithog megis *Le Livre des Salutations* a *West-östliches Stammbuch*, a ymddangosodd yn 1888 ac 1889. Anfonodd gopïau ohonynt at gyfeillion megis Betha Johnes a Syr John Rhŷs.[90] Yn 1896, nododd farwolaeth Arglwyddes Llanofer drwy gyhoeddi cyfrol fechan o gerddi Cymraeg, gan sicrhau bod un copi o leiaf ar gof a chadw yng Nghymru, fel y dysgir o'r hysbyseb yn y cylchgrawn *Celtia*:

> Dr. Saurwein, of Hanover, the well-known German authority on Gaelic Literature, has presented to the Welsh Department of the Cardiff Library a volume of his prose and verse in composition in honour of the late Lady Llanover. The book bears a pretty title, meaning in English; 'Withered Leaves and Wild Flowers for the Grave of Gwenynen Gwent,' which was the bardic title of his late patroness, and is cleverly written in the Monmouthshire dialect of Welsh.[91]

Cedwir y copi hwn gan wasanaeth llyfrgelloedd Caerdydd hyd heddiw.[92]

Er mor ddifyr y gweithiau hynny, hoffwn olrhain yr olion anghyhoeddiedig yma er mwyn amlygu agweddau llai cyhoeddus ar berthynas Sauerwein â Chymru. Gohebai ag aelodau teulu Williams Aberpergwm, Syr John Rhŷs a John Glyn Davies, ond yn fwyaf helaeth â Betha Johnes o Ddolaucothi (1834–1937), merch iau yr ustus John Johnes, menyw hardd a hyddysg, Cymraes â diddordeb ym maledi a llên gwerin ei gwlad.[93] Yn archif swmpus y teulu ceir nifer o lythyrau gan Sauerwein at 'Miss Johnes' neu 'Mrs Hills-Johnes' yn ddiweddarach, a ysgrifennwyd rhwng 1858 ac 1904, blwyddyn ei farwolaeth. Cariad rhamantus tuag at fenyw ddeniadol a gynrychiolai Gymru ei ddychymyg a'i hysbrydolodd, fel sydd yn amlwg o'r llythyr cyntaf yn y casgliad (hyd at yr olaf). Cydymdeimlai â phroblemau iechyd y teulu, dychmygodd y golygfeydd gwanwynaidd gwyrdd

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 73 19-May-18 10:40:49 AM

o'r 'wide lawn' o flaen plas Dolaucothi, a chysylltodd Betha â'r brenin Arthur cyn ei galw yn 'heavenly nymph of Myrddin's vales'.[94] Yno, ychwanegodd ddrafft o gerdd serch Saesneg, gan addo dal ati i farddoni yn y Gymraeg:

> You ask about my Welsh poem, I have not been able yet to proceed with it, and I often fear never shall – I meant to celebrate Wales – vain presumptions – What can my feeble powers add to the glory of the 'land of Arthur' [. . .] I cannot refrain from enclosing a few lines in Welsh, which I beg you to keep as a remembrance of St David's day. As my Welsh has probably degenerated in this 'allfro', I subjoin an explanation of what I meant by some expressions like some Indian poets, who wrote commentaries on their own works, whose chief merit consists in their unintelligibility. To avow candidly even my vanity, – I am rather proud of the 'cynghanedd' of those lines.[95]

Fel Meyer, fe'i gwelai ei hun yn alltud o wynfyd y Gymru hynafol fythwyrdd a deuai ei thraddodiad barddol ag India i'w feddwl yntau hefyd. Ni welais y gerdd a atododd Sauerwein, ond gall fy mod wedi canfod fersiwn ohoni yn llawysgrifau John Glyn Davies,[96] cyfaill a gohebydd yr ysgolhaig Almaeneg Kuno Meyer:

> Annerchiad bardd tramor i hen Gymru
>
> Hedd i gaer haul Y grefydd – hen Gymru,
> Gref fel Wyddfa, cawr fynydd,
> Galwaf a gallu prydydd.
> Y prisia 'r iaith yr ieithydd.
>
> Ffawd fo i dir ffyddlondeb – hen Gymru,
> I dir yr hen diriondeb,
> Lle'r undeb a'r uniondeb
> Sy 'n llydaw llif boddlondeb.

Dyn dieithr yw'n dymuno: – hen Gymru,
Pan gaiff mewn heddwch huno
Ein henaint wedi blino,
Bo 'i h-awen hi 'n dihuno.[97]

Fel Meyer o'i flaen, dathla Sauerwein Gymru mewn cynnwys a ffurf drwy geisio llunio cadwyn o englynion, a llwyddo i greu cyffyrddiadau cynganeddol. Canfyddir olion ffugiadau Iolo Morganwg wedi eu parhau gan ab Ithel ynddynt o hyd, wedi eu cymysgu â damcaniaethau'r Athro Müller a fynnai mai canolbwynt hen grefyddau'r Indo-Ewropeaid oedd Duw'r haul. O'r gorffennol â Sauerwein i 'undeb ac uniondeb' y Gymru bresennol, yn ddiogel yng nghysgod yr Wyddfa – trosiad cyffredin ym marddoniaeth Gymraeg Oes Victoria – gan edrych ymlaen at y dydd y byddai'r genedl hithau yn deffro fel Norwy, a enillodd ei hannibyniaeth yn 1905.

Llinyn aur yr ohebiaeth a ddilynodd y llythyr cyntaf hwn yw harddwch ieithoedd a diwylliannau gorthrymedig Ewrop a'r cysylltiadau a welodd ac a greodd Sauerwein rhyngddynt. Drwy ei lythyrau, daeth byd lliwgar, amrywiol, hardd a heriol i Ddolaucothi: o Burg yn rhan ogleddol bro'r Sorbiaid, o Dovre yn Norwy, o 'high up in the north' yn Lithwania ac o fwrdd llong ar siwrnai o Stockholm i Åbo (neu Turku) yn y Ffindir: 'a country of wondrously beautiful natural sceneries, and with a stern, but sterling population and nationality, interesting especially through their soft and euphonious language, allied to the Hungarian and abounding in most beautiful ancient song'.[98] Cysylltai wledydd, a chreai ddolenni rhwng ieithoedd a diwylliannau, drwy gynnwys cyfieithiadau o'i waith, gan sylwi'n graff ar wahaniaethau cysyniadol rhwng gwahanol ieithoedd, a rhai'r 'werin' yn anad dim:

> Another reason why I undertook to write again so soon was that my mention of my own Norwegian poetry recalled the same with greater vividness to my thoughts and I endeavoured to translate some of it into English [. . .] You must excuse several imperfections inseparable from haste, but which a critic would hardly tolerate, e.g. the repeated use of the word 'folk', which in Norwegian, is very elevated, but has in English a rather jocose smack; and the imperfect rhymes – allowed in Gaelic

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 75 19-May-18 10:40:49 AM

– 'south' and 'proud', or 'birds' and 'firs'. I merely wanted to make the original intelligible [. . .] I ought perhaps to apologize for the lines touching England, but, to me, you and the General are Welsh:

Translated from 'Frie Viso ifraa Vigguin'

Don't bury me far in the south,
Nor even in Europe's west:
She whom you know, the Maid so proud
Leaves me no place of rest.

She is so great – (were she so free!)
She's harsh towards many a tongue:
I strove, although in vain, to be
A spokesman (with all my strength) against such wrong.

Don't bury me where the stars ascend
Midst people I call my own,
Who have no champion, have no friend,
And scarce are free to moan.

The sigh so sure for race and tongue,
More murdered than oppressed,
For life and mind, killed with one thong,
It would disturb my rest.

Don't bury me in shady grove,
You know that alder-maze
Where dreams beguiled, perchance of love,
In long long bygone days.

Those trees, once felled, grow ne'er again,
With meaning stern they teem:
They sigh as though they would complain,
Their sigh would scare my dream.

Don't bury me in life's affray,
On proud great Britain's shore,
(on stranger islands far away,
a stepchild, as of yore).

Where freedom dwells, but also pride,
And all look up or down:
Not there, not there by stranger's side,
I'd rest, in tedious town.

Nay, bury me (that's fair I deem)
In Norway in the North:
Less narrow even the tomb must seem
In free and friendly earth:

The rustling firs, the chirping birds,
Blythe messengers they be
From my poor land of heath and firs,
Where birds' song yet is free.[99]

Yn ddi-os, Almaeneg yw'r 'maiden' gaeth sydd yn chwipio ieithoedd eraill ei hymerodraeth, a'r Almaen yw'r wlad mewn cyffion, y famwlad a'i herlydiodd am gyhoeddi cerdd ganmoliaethus ar achlysur marwolaeth Ładysław Czartoryski, arweinydd mudiad cenedlaethol Gwlad Pwyl yn 1894. Yng Nghymru y mae'r gelli gwern tywyll a dorrodd ei galon. Cyfeiria'r pennill ar Brydain at y gagendor dosbarth a orfodai pawb i edrych i fyny at rai neu i lawr ar eraill. Nid ef oedd yr unig Almaenwr a deimlai fod Prydain Fawr yn wlad haearnaidd ei strwythur cymdeithasol. Ei anallu i addasu ei ymddygiad i reolau caeth y llys brenhinol a oedd y tu ôl i ymadawiad disymwth Meyer o Windsor, wedi'r cyfan. Er i Maximilian Müller fod yn

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 77 19-May-18 10:40:49 AM

fwy llwyddiannus o ran ei yrfa, teimlai yntau effaith rhagfarn dosbarth a chrefydd Rhydychen yn erbyn y 'German clique' ac estroniaid eraill gydol ei oes.[100] Ond yn achos Sauerwein, daeth yr ergydion o Lanofer. Yn 1896, dychwelodd i Brydain i gynnig ei wasanaeth i brifysgol newydd sbon y Cymry, gan ddisgwyl cymorth gan 'Lady Llanover, who, in former times, had been so anxious to secure my services in the cause of Welsh language and literature, who had enticed me away from my Indian career'.[101] Teithiodd i'w gweld, ond fel y cwynodd i Betha:

> the only result was an insult. To bear that calmly it was necessary to remember that it was committed by dotage. The remembrance of the many happy evenings which I had the honour of spending sitting in the presence of real, external and mental Royalty, enabled me to bear more easily and with lofty self conscious equanimity the insult which imaginary Royalty, mock-Royalty, [. . .] attempted to inflict on me by keeping me standing like a footman in her presence, and by doing as you know what was much worse than that and what I had to trouble you for taking from me [. . .] No words, however, can express my indignation on remembering the subject afterwards. It was for the sake of a noble word which Prince Czartoryski had said against a similar behaviour betraying not the noble pride of real aristocracy, but the insolence of parvenuism, that I conceived such an enthusiastic attachment for that noble and high-spirited young man that it afterwards induced me to devote (after he was taken from us) to him those flaming lines in Lithuanian, that long poem, which in this very year drew on me that raging persecution by the Bismarckomaniacs of this country.[102]

Rhodd fach ariannol oddi wrth yr arglwyddes oedd y sarhad 'eithaf' y cyfeiriodd ato. Nid dyma oedd y llythyr cyntaf na'r unig un i feirniadu'r gwahaniaethu honedig ar sail dosbarth a wnaed gan Arglwyddes Llanofer a'i merch, Arglwyddes Herbert, a'u harfer o drin ysgolheigion megis 'footmen' mewn 'audience'.[103] Yn 1890, bu'n gobeithio ymweld â Chymru unwaith yn rhagor mewn cysylltiad ag ymweliad ei hen ddisgybl annwyl Elisabeth zu Wied â'r wlad. Synnodd at y diffyg cyfathrebu o du Llanofer a oedd mor wahanol i ymddygiad Brenhines Rwmania, a anfonodd ddau

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 78 19-May-18 10:40:49 AM

delegram ato ynghylch y trefniadau. Amheuai mai diffyg statws cymdeithasol oedd y rheswm am dawedogrwydd Llanofer:

> If, however, I was invited to Llanarth merely as the attendant of another person, however exalted, distinguished, renowned, and sympathic [*sic*] and not even deemed worthy of a card of reply [. . .] then it is better that this should have become manifest in this manner [. . .] than that I should have been beguiled into a false belief that any one at Llanarth could be so self-forgetful as to think of me for my own sake.[104]

Hawdd barnu i'w feddwl gael ei dywyllu gan chwerwder henaint, ac ef oedd y cyntaf i gyfaddef ei fod 'often inclined to be impatient and troublesome', ond nid ef oedd yr unig ysgolhaig dosbarth-canol is i gael ei drin fel gwas a chanolwr.[105] Wrth iddo heneiddio, trwythai'r siom am grachfoneddigedd Arglwyddes Llanofer ohebiaeth Sauerwein fwyfwy, fel pe bai yn methu maddau iddi hi am ddinistrio ei ffantasi o'r Gymru ddiddosbarth, werinol, wynfydol, gwlad Arthur, Betha, Myrddin a duwiau Indo-Ewropeaidd. Ar yr un pryd, ymdrechodd i godi'r hen wlad hon yn ei hôl drwy ddychwelyd at y Gymraeg ac atgyfodi ysbryd beirdd ac ysgolheigion oes y rhamant:

> Wrth gofio'r hen Gymru, fel y bu hi ynghylch amser yr Eisteddfod mwyn a chofiedig am fyth, rhaid i mi ysgrifenu rhyw linellau hefyd yn hen iaith y beirdd. – Talhaiarn, ab Ithel a'r ser [*sic*] eraill i gyd o Wybren barddonol y pryd hwnnw y maent hwy wedi myned oddiwrthym Cenedlaeth newydd sy wedi codi, yr hon sydd yn ddieithr i mi ond fy ngolwg yw yn edrych yn ol [*sic*] gyda hiraeth mawr tuag at yr anwyl hen amserau – 'dear auld lang syne' amserau fel pe bai, cartrefol i'r awen a'r anian farddonol. Yn awr y mae'r ideal wedi ffoi a'r prosa a'i ddychryn yw'n llywodraethu ym mhob man. A ydych yn cofio y bardd, yr hwn a geisiodd gyfarfod ag ab Ithel, a phan gafodd ei weled, a rhyfeddodd am fod y dyn enwog mor fychan. Dywedasant i mi: 'Bardd y Cwsg yw heb wneuthur pennill heddyw'.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 79 19-May-18 10:40:49 AM

Cyfansoddais yn uniawn:

> Dyn godidog drwy'r Gododin,
> Hanes hardd am eirf a byddîn.
> Ond fe siomodd fardd y Deheu
> Drwy ei fod mor fàch ~~wyn~~ a theneu.

> Amserau gwynfydedig! Pa fodd yr aethant heibio. Ac yn awr yr wyf yn bell iawn, yn ngwlad Llychlyn, ond fy ysbryd yw mor Gymraeg fel erioed ac fy meddyliau yn troi yn ol [*sic*] i faesydd Fynwy ac yn dal y *Jubilee* yn yr wythnosau hyn o'm h-adnabyddiaeth cyntaf a [*sic*] Gwent ac a [*sic*] Llanofer.[106]

Braf gweld ychydig o hiwmor ar ddiwedd bywyd a llythyr mor hiraethus. Ab Ithel, Y Gododdin a beirdd rhamantaidd Cymru oedd arwyr Sauerwein o hyd. Caniantaent iddo hiraethu am ei ieuenctid ac am gymdeithas wâr na fodolai erioed. Bu farw lai na blwyddyn wedi cyfansoddi'r gerdd olaf hon.

Ystyried olion yr ymwelwyr

Ymwelwyr gwahanol eu tarddle, eu statws cymdeithasol a'u doniau oedd Dwarkanath Ţhakur, Friedrich Karl Meyer, Władysław Czartoryski a Georg Justus Sauerwein, a hefyd y rheini sydd ar gyrion yr ysgrif hon, y Freiherr Johann Christian von Bunsen a'r Athro Friedrich Maximilian Müller. Amlygir y cysylltiadau rhyngddynt yn yr olion llenyddol a adawent ar eu holau – ar ffurf cerddi, erthyglau mewn papurau newydd a chyfnodolion, mewn llythyrau a dyddiaduron – boed y rhain yn gyfansoddiadau ganddynt neu amdanynt. Ffurfient gadwyn o hanes gwleidyddol a masnachol ymerodraethau Ewrop, a Phrydain yn bennaf, yn eu cysylltiad ag ysgolheictod â'r diwylliannau dan eu rheolaeth. Gwelir ynddynt natur ddeuol Cymru, yn rhan ganolog o frenhiniaeth ac Ymerodraeth Prydain, yn falch o gyfranogi yn ymdrechion eu gwladwriaeth i drefedigaethu parthau eraill y byd, ac eto i gyd yn ymddangos i eraill megis trefedigaeth

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 80 19-May-18 10:40:49 AM

Brydeinig yr oedd ei hiaith a diwylliant ei brodorion dan fygythiad. Dengys sut y tafluniwyd dyheadau rhamantaidd am hynafiaeth a pherthnasedd yr ieithoedd Indo-Ewropeeg, yn gymysgiad o'r gwyddonol a'r chwedlonol, wedi eu cyplysu'n gynyddol â syniadau hiliol, ar ddynion megis Ţhakur a Gwallter Mechain, menywod megis Betha Johnes, a gweithiau llenyddol megis Y Gododdin. Y tu hwnt i hyn, gwelir yn natganiadau rhai o'r ymwelwyr hefyd ddechreuadau mudiadau a pholisïau iaith modern. Yn haenen ychwanegol i hyn, dengys llwbrau'r ymwelwyr bwysigrwydd statws cymdeithasol a dosbarth i gwrs bywydau beirdd ac ysgolheigion Oes Victoria. Hwyrach i ystyriaethau'r erthygl hon rwygo rhywfaint ar wynfyd ein hedmygedd o'r Cymry a gododd 'yr hen wlad yn ei hôl'. Eithr yn yr unfed ganrif ar hugain, haedda ffigyrau dylanwadol ein hanes ddadansoddiadau cyflawn yn eu cyd-destunau cymdeithasol a gwleidyddol yn hytrach na chwedloniaeth, hyd yn oed os achosant deimlad o anesmwythder.

Caerdydd *Marion Löffler*

Nodiadau

1 Erthygl ar sail Darlith Goffa Islwyn, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, a draddodwyd ar 8 Ebrill 2017, yw hon. Rwyf yn ddiolchgar i'r Athro Ann Parry Owen a'r golygyddion am eu sylwadau craff.

2 *GPC*, d.g. *ôl*[1].

3 Ceir rhestr o 12 erthygl Maxwell Fraser ar deulu a chylch Llanofer ar ddiwedd cofnod Augusta Hall yn y *Bywgraffiadur Cymreig* [Ar-lein]. Ar gael: *http://yba.llgc.org.uk/cy/c10-HALL-AUG-1802.html*, cyrchwyd 24 Hydref 2017. Gw. hefyd Mair Elvet Thomas, *Afiaith yng Ngwent: Hanes Cymdeithas Cymreigyddion y Fenni* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1978); David Thorne, 'Cymreigyddion y Fenni a dechreuadau ieitheg gymharol yng Nghymru', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 27:1 (1991), 97–107; Prys Morgan, 'Lady Llanover (1802–1896), "Gwenynen Gwent"', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, cyfres newydd, 13 (2006), 94–106; Rachel Ley, *Arglwyddes Llanofer: Gwenynen Gwent* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2001); Celyn Gurden-Williams, 'Lady Llanover and the Creation of a Welsh Cultural Utopia' (Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, 2008).

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 81 19-May-18 10:40:49 AM

4 *Y Bywgraffiadur Cymreig*.
5 Thomas, *Afiaith yng Ngwent*, tt. 127–38; Llyfrgell Genedlaethol Cymru [LlGC] Llsgr. 910C, Breton Verses; LlGC Llsgr 942C, Letters to Thomas Stephens, 1840–60; LlGC lsgr. 910C, Breton verses in the form of a dialogue between the Breton people and Welsh people, sung at a meeting of the Abergavenny Cymreigyddion Society by Count Théodore Hersart de la Villemarqué, with a Welsh translation by Thomas Stephens; 'Trosglwyddo Gwybodaeth a Rhwydweithiau Cymdeithasol Trawsysgrifiad', llythyrau 308–310 [Ar-lein]. Ar gael: *https://archives.library.wales/index.php/letters-889*, cyrchwyd 1 Hydref 2017.
6 François Jaffrennou, Théodore Botrel, *Gwerziou Gant Abherve ha Taldir (Brezoneg ha keumraeg kenver-ouz-kenver) Er Coffadwriaeth am Eu Taith yn Nghymru* (Saint-Brieuc, 1899); Marion Löffler, *'A Book of Mad Celts'. John Wickens and the Celtic Congress of Caernarfon 1904/John Wickens a Chyngres Geltaidd Caernarfon 1904* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2000), tt. 36–43; LlGC Cymynrodd Maxwell Fraser CB/16, 'La Vie de Chateau a Llanover à la Fin du XIXe. Siècle. Par Taldir'.
7 *The Cambrian*, 22 Hydref 1842.
8 *The Cambrian*, 22 Hydref 1842.
9 Jane Williams (gol.), *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price, Carnhuanawc, Vicar of Cwmdû, Breconshire and Rural Dean*, 2 gyf. (Llandovery: W. Rees, 1854), II, tt. 315–16; *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
10 Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, II, t. 312; *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
11 Robert Havard, *Wellington's Welsh General: A Life of Sir Thomas Picton* (London: Aurum Press, 1996).
12 W. G. J. Kuikers, 'William Paxton, 1744–1824: The history of an East India fortune', *Bengal Past and Present*, 111 (1992), 1–22.
13 Gwyn Walters, 'Books from the "Nabob". The Benefactions of Thomas Phillips at Lampeter and Llandovery', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, cyfres newydd, 5 (1999), 36–61; G. W. Evans, *A History of Llandovery College* (Cardiff: The Trustees of Llandovery College, 1981).
14 Queen Victoria's Journals, 8 Gorffennaf 1842 [Ar-lein]. Ar gael: *www.queenvictoriasjournals. org*, cyrchwyd 18 Hydref 2017.
15 Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, t. 312; *The Cambrian*, 24 October 1845.
16 *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
17 *Illustrated London News*, 25 October 1845, yn Peter Lord, *Y Chwaer Dduwies. Celf, Crefft, a'r Eisteddfod* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1992), t. 17. Yn y gwreiddiol, gwelir cerflun o'r bardd Taliesin a thelynores mewn gwisg Gymreig uwchben y prif lun sydd â'r ymwelydd croen-tywyll yng nghanol y ddelwedd.
18 Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, II, t. 297.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 82 19-May-18 10:40:49 AM

19 Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, II, t. 298.
20 Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, tt. 314–15.
21 Michael Franklin, *'Orientalist Jones': Sir William Jones, Poet, Lawyer and Linguist, 1746–1794* (Oxford: Oxford University Press, 2011).
22 Marion Löffler, *The Literary and Historical Legacy of Iolo Morganwg 1826–1926* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), tt. 99–101, 190–1; J. Williams ab Ithel (ed.), *The Barddas of Iolo Morganwg* (Boston: Weiser Books, 2004), tt. 82–4.
23 P. J. Marshall, *The New Cambridge History of India II.2. Bengal: The British Bridgehead. Eastern India 1740–1828* (Cambridge: Cambridge University Press, 1987), tt. 120–6, 139–40, 144–8.
24 Marshall, *New Cambridge History of India II.2*, t. 147.
25 Mary Ellis Gibson, *Indian Angles: English Verse in Colonial India from Jones to Tagore* (Athens: Ohio University Press, 2011), tt. 227–80.
26 Marshall, *New Cambridge History of India II.2*, tt. 128–30.
27 Blair B. King, *Partner in Empire: Dwarkanath Tagore and the Age of Enterprise in Eastern India* (Calcutta: Firma KLM Pvt. Ltd, 1981), t. 32.
28 W. H. Sykes, 'On the population and mortality of Calcutta', *Journal of the Statistical Society of London*, 8:1 (March 1845), 50.
29 King, *Partner in Empire*.
30 *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
31 *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
32 *Monmouthshire Merlin*, 18 October 1845.
33 Ymddengys yr un ddeuoliaeth yn ysgrifennu cenhedlaeth ddilynol ysgolheigion Almaeneg, megis Kuno Meyer. Gw. Marion Löffler, 'Famous first words: "Never will I master Gaelic" – Kuno Meyer in his diaries and correspondence', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 74 (winter 2017), 33–9.
34 Am ystyriaeth fanylach o fywyd Meyer a'i gysylltiadau ag ysgolheigion Almaeneg eraill, gw. Marion Löffler, 'Bunsen, Müller a Meyer: tri Almaenwr, y Gymraeg, y frenhines a'r ymerodraeth', *Y Traethodydd*, CLXXIII:724 (Ionawr 2018), 19–32.
35 'At gyhoeddwyr yr Haul', *Y Haul*, IX:104 (Chwefror 1844), 68.
36 *A Memoir of Baron Bunsen Late Minister Plenipotentiary and Envoy Extraordinary of His Majesty Frederick IV to the Court of St. James Drawn Chiefly from Family Papers by his Widow Frances Baroness Bunsen. In Two Volumes* (London: Longmans, Green, and Co., 1868), I, t. 224.
37 LlGC Llsgr. Maxwell Fraser, CB/25/49; *The Western Mail*, 7 Chwefror 1871.
38 LlGC Llsgr. Maxwell Fraser, CB/25/59.
39 Thomas, 'Traethodau Harding, Schulz a Meyer', yn Thomas, *Afiaith yng Ngwent*, tt. 85–93.
40 *The Cambrian*, 22 Hydref 1842.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 83 19-May-18 10:40:49 AM

41 LlGC Llsgr. Caerdydd, meicroffilm CL 3.109, Gohebiaeth William Rees, Llandovery, 1843–1872, 22 Tachwedd 1843.
42 LlGC Llsgr. Maxwell Fraser CB7; *Monmouthshire Merlin*, 21 Tachwedd 1846.
43 Mary Ellis, 'W. J. Rees, 1772–1855. Conclusion', *Radnorshire Society Transactions*, 42 (1972), 56.
44 Marian Henry Jones, 'The letters of Arthur James Johnes, 1809–71 (concluded)', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 10:4 (1958), 333; LlGC Llsgr. 1808E, W. J. Rees at Gwallter Mechain, 20 Awst 1844; Williams, *The Literary Remains of the Rev. Thomas Price*, II, tt. 348, 387–8.
45 LlGC Llsgr. CL 3.109, Gohebiaeth William Rees, Llandovery, 1843–1872, 22 Tachwedd 1843; 'Yr iaith Gymraeg', *Yr Haul*, IX:103 (Ionawr 1844), 35.
46 LlGC Llsgr. 1808D, W. J. Rees at Gwallter Mechain, 18 Medi 1844.
47 LlGC Llsgr. Cwrtmawr 775C.
48 Ann Parry-Owen, '"Englynion Bardd i'w Wallt": cerdd arall gan Dafydd ap Gwilym?', *Dwned*, 13 (2007), 47, 51–60. Gw. hefyd Hanna Gwen Hopwood, 'Highlighting hair: What can be revealed from reading hair in medieval Welsh literature' (Traethawd DPhil, Prifysgol Rhydychen, 2017).
49 Dr Carl Meyer, 'Walter Davies and Welsh literature', yn D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith y Parchedig Walter Davies (Gwallter Mechain) Cyfrol III* (Caerfyrddin: William Spurrell, 1866), t. 570.
50 LlGC Llsgr. 1808E, Thomas Stephens at Gwallter Mechain, Merthyr Tudful, 8 Tachwedd 1849.
51 LlGC Llsgr. Cwrtmawr 919B, Gwallter Mechain at Thomas Stephens, Llanrhaiadr, 31 October 1849.
52 *Memoir of Baron Bunsen*, I, tt. 72–3.
53 Ellis, 'W. J. Rees, 1772–1855. Conclusion', 57. Am olion Meyer yn llyfrgell teulu brenhinol Lloegr, gw. Löffler, 'Bunsen, Müller a Meyer', 26.
54 Niraid C. Chaudhuri, *Scholar Extraordinary: The Life of Professor the Rt. Hon. Friedrich Max Müller P.C.* (London: Chatto and Windus, 1974), tt. 49–51, 57–8, 61–2.
55 Löffler, 'Bunsen, Müller a Meyer', 24–5.
56 'On the results of the recent Egyptian Researches in Reference to Asiatic and African Ethnology, and the Classification of Languages. A Discourse read before the Ethnological Section of the British Association for the Advancement of Science, at Oxford, on the 28th of June, 1847, by C. C. J. Bunsen, D. C. L., Ph.D.', yn *Three Linguistic Dissertations Read at the Meeting of the British Association in Oxford. By Chevalier Bunsen, Dr. Charles Meyer, and Dr. Max Müller* (London, 1848), t. 266.
57 'On the importance of the study of the Celtic language as exhibited by the modern Celtic dialects still in existence. By Dr. Charles Meyer', yn *Three Linguistic Dissertations*, tt. 301–18.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 84 19-May-18 10:40:49 AM

[58] Meyer, 'On the importance of the study of the Celtic language', tt. 301–2; *The Myvyrian Archaiology*, I, tt. 72–3, 'Marwnad Uthr Pendragon'.

[59] Meyer, 'On the importance of the study of the Celtic language', t. 318.

[60] Traethodd Müller ar 'On the relation of the Bengali to the Arian and Aboriginal languages of India. By Dr. Max Müller', yn *Three Linguistic Dissertations*, tt. 319–50.

[61] Chaudhuri, *Scholar Extraordinary*, tt. 59–60, 138–4.

[62] Queen Victoria's Journals, 3 February 1847, 24 May 1847, 26 August 1847 [Ar-lein]. Ar gael: *www.queenvictoriasjournals.org*, cyrchwyd 8 Rhagfyr 2016.

[63] Pamela Clark, Senior Archivist, Royal Archives, Windsor Castle, at Marion Löffler, Aberystwyth, 25 September 2014; Theodore Martin, *The Life of His Royal Highness the Prince Consort*, 5 vols (London, 1875–80), I (1875), t. 408.

[64] Ellis, 'W. J. Rees, 1772–1855. Conclusion', 58.

[65] LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, Subjects and Prizes for the Nineteenth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion, which is intended to be held in the Autumn of 1852: 'A subscription prize of twelve guineas for the best English prose translation of "The Gododin" with explanatory notes. Dr. C. Meyer £10.10; a lady £2.2'; LlGC Llsgr. Ychwanegol 904C, 'The Gododin'.

[66] *Y Gododin. A Poem on the Battle of Cattraeth, by Aneurin, A Welsh Bard of the Sixth Century, with an English Translation, and Numerous Historical and Critical Annotations; by the Rev. John Williams ab Ithel* (Llandovery: William Rees, 1852), t. ix; *The Gododin of Aneurin Gwawdrydd: An English Translation, with Copius Explanatory Notes; A Life of Aneurin; and Several Lengthy Dissertations Illustrative of the 'Gododin', and the Battle of Cattraeth. By the Late Thomas Stephens (Author of 'The Literature of the Kymry') Edited by Thomas Powel* (London: Honourable Society of Cymmrodorion, 1888), t. vi. Cymharer Daniel Huws, '"Canu Aneirin": the other manuscripts', yn Brynley F. Roberts (gol.), *Early Welsh Poetry. Studies in the Book of Aneirin* (Aberystwyth: National Library of Wales, 1988), tt. 54–5.

[67] LlGC Llsgr. Ychwanegol 904C, 'The Gododin'; LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, *The Carnarvon and Denbigh Herald, and Merthyr and South Wales Independent. Report of the Abergavenny Eisteddfod, being the Twentieth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion. Held on the 12th and 13th Days of October, 1853. "Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg."* (Carnarvon, 1853).

[68] LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, *The Carnarvon and Denbigh Herald, and Merthyr and South Wales Independent. Report of the Abergavenny Eisteddfod, being the Twentieth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion. Held on the 12th and 13th Days of October, 1853*, t. 22.

[69] Carl Meyer, 'Philology. An Essay on the Celtic Languages, in which they are compared with each other, and considered in their Connexion with the Sanscrit, and the other Caucasian Languages. By Dr. Carl Meyer, of Rinteln. Translated

from the original French by Jane Williams, (Ysgafell). Part I.', *The Cambrian Journal*, I (1854), 5–33.

70 Meyer, 'Philology, 12.

71 Friedrich Karl Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften, Sprachen und Litteraturen in ihrer Geschichte und Bedeutung* (Berlin: Wilhelm Hertz, 1863), t. 4.

72 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, t. 9.

73 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, tt. 6–7. Gwelir yma ddylanwad chwedlau Iolo Morganwg am darddiad y Cymry yn 'Deffrobani' o hyd.

74 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, tt. 26–7.

75 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, tt. 37–8.

76 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, tt. 37, 48; Cymh. Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1961), tt. 3 (llau. 68–73), 10 (llau. 235–40), 3 (llau. 57–63), 4 (llau. 90–3).

77 Meyer, *Die noch lebenden keltischen Völkerschaften*, tt. 39, 49; Cymh. 'Gwarchan Cynfelyn', yn Williams, *Canu Aneirin*, tt. 54–5, llau. 1401–11.

78 F. Charles Meyer, 'The Welsh Poems in the "Codex Juvencus"', *Archaeologia Cambrensis*, cyfres IV, cyfrol III (1872), 222.

79 LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, *The Carnarvon and Denbigh Herald, and Merthyr and South Wales Independent. Report of the Abergavenny Eisteddfod, being the Twentieth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion. Held on the 12th and 13th Days of October, 1853*, t. 9.

80 Anhysbys (gol.), *Dr. Georg Sauerwein. I. Internationales Sauerwein-Symposium 8.11.–11.11.1990* (Gronau, 1994); Roland Marti (gol.), *Sauerwein – Girėnas – Surowin. II. Internationales Sauerwein-Symposium 21.−26. November 1995* (Gronau – Leine, Budyšin/Bautzen, Borkowy/Burg. Olms, Hildesheim u.a., 1996); Oskar Vistdal (gol.), *III. Internationales Sauerwein-Symposium in Dovre 9.–12. August 2000* (Dovre, 2003).

81 LlGC Llsgr. Dolaucothi L9365, Georg Sauerwein at Betha Johnes, Dovre, Skog, 21 Hydref 1890.

82 R. H. Dalitz, 'Georg Sauerweins frühe Jahre in Großbritannien', yn Anhysbys, *Dr. Georg Sauerwein. I. Internationales Sauerwein-Symposium*, t. 23. Elisabeth zu Wied, oedd hon, a urddwyd yn 'Carmen Sylva' yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Aberhonddu, 1889, ac a fu'n bresennol yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Bangor, 1890, nid 'Marie' ei merch a fu farw yn bedair blwydd oed. Gw. Geraint a Zonia Bowen, *Hanes Gorsedd y Beirdd* (Dinbych, 1991), tt. 250 a 280; Löffler, *'A Book of Mad Celts'*, t. 6; LlGC Cymynrodd Maxwell Fraser, CA 2,004, Gerald Stone at Maxwell Fraser, 7 October 1975.

83 Dalitz, 'Georg Sauerweins frühe Jahre in Großbritannien', tt. 27–32, 24; Gerald Stone, 'The Sorbs of Lusatia', *Planet*, 34 (November 1976), 20–35; LlGC Cymynrodd Maxwell Fraser, CA 2,000, Meic Stephens at Maxwell Fraser, 10 February 1975.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 86 19-May-18 10:40:49 AM

[84] LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, *The Carnarvon and Denbigh Herald, and Merthyr and South Wales Independent. Report of the Abergavenny Eisteddfod, being the Twentieth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion. Held on the 12th and 13th Days of October, 1853*, t. 11.

[85] LlGC Llsgr. Ychwanegol 966C, *The Carnarvon and Denbigh Herald, and Merthyr and South Wales Independent. Report of the Abergavenny Eisteddfod, being the Twentieth Anniversary of the Abergavenny Cymreigyddion. Held on the 12th and 13th Days of October, 1853*, t. 11.

[86] Dalitz, 'Georg Sauerweins frühe Jahre in Großbritannien', t. 62.

[87] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9388, Georg Sauerwein at Betha Hills-Johnes, Burg/Spreewald via Berlin, 17.XI.1896; Dalitz, 'Georg Sauerweins frühe Jahre in Großbritannien', tt. 18–19, 24, 39.

[88] Dalitz, 'Georg Sauerweins frühe Jahre in Großbritannien', tt. 38–9.

[89] LlGC Cymunrodd Maxwell Fraser, CA 2,004, Gerald Stone at Maxwell Fraser, 7 October 1975.

[90] Richard Dalitz a Gerald Stone, 'Contributions from English and Welsh Sources to the Biography of Georg Sauerwein', *Lětopis*, 31:2 (1984), 182–206.

[91] *Celtia*, II: 2 (Chwefror 1902), 29. Atgynhyrchir tair cerdd o'r casgliadau hyn yn Stone, 'The Sorbs of Lusatia', 35.

[92] G. J. Sauerwein, *Dail Gwyw a Blodau Gwyddle ar Fedd Gwenynen Gwent gan Gerddawr Tramor* (Leipsic, 1896).

[93] Maxwell Fraser, 'Sir Benjamin and Lady Hall at Home in the 1850s Part I', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 14:3 (1966), 285–300. Ceir yma ddisgrifiad nodedig o Betha yn fenyw ifanc.

[94] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9354, Georg Sauerwein at Miss Johnes, Neuwied am Rhein (Prussia), 20 April 1858. Ceir drafft hir o gerdd gariadus yma.

[95] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9354, Georg Sauerwein at Miss Johnes, Neuwied am Rhein (Prussia), 20 April 1858.

[96] Bernhard Maier (gol.), *Kuno Meyer and Wales: Letters to John Glyn Davies 1892–1919* (Würzburg: Ergon-Verlag, 2017).

[97] LlGC Llsgr. Papurau J. Glyn Davies 23, 'Sauerwein. A famous linguist – described by Kernopehken [?] as the Mezzofanti of modern times. These Englynion are in his autograph. JGD 25/6/40'.

[98] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9365, Georg Sauerwein at Betha Johnes, Dovre, Skog, 21 Hydref 1890. 'addre. Retante Christiania'.

[99] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9382, Georg Sauerwein at Betha Johnes, Dovre, Skog, 18 Medi 1895. 'addre. Retante Christiania'.

[100] Chaudhuri, *Scholar Extraordinary*, tt. 62, 206–7, 220–9.

[101] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9388, Georg Sauerwein at Betha Hills-Johnes, Burg/Spreewald via Berlin, 17.XI.1896.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 87 19-May-18 10:40:49 AM

[102] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9388, Georg Sauerwein at Betha Hills-Johnes, Burg/Spreewald via Berlin, 17.XI.1896.

[103] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9382, Georg Sauerwein at Betha Johnes-Hills, Dovre, Skog, 18.9.1895.

[104] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9365, Georg Sauerwein at Betha Johnes, Dovre, Skog, 21.10.1890.

[105] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9395, Georg Sauerwein at Betha Johnes-Hills, 23 March 1904, restante Christiania. Defnyddiwyd Thomas Stephens o Ferthyr Tudful e.e. i negodi telerau a sicrhau cytundebau ag artistiaid Merthyr Tudful. Gw. *https://archives.library.wales/index.php/letters-534*, cyrchwyd 17 Hydref 2017.

[106] LlGC Llsgr. Dolaucothi L9393, Georg Sauerwein at Betha Hills-Johnes, restante Christiana, 26 Medi 1903.

03 Marion Loffler 2018_5_19.indd 88 19-May-18 10:40:49 AM